



**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
DYDD MAWRTH 26^{ain} GORFFENNAF 2016 am 2.00pm
YSTAFELL PA30 ARCHIFDY SIR BENFRO**

Presennol:

Bernadine Rees	Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is-gadeirydd)
Ian Westley	Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro (gadawodd am 3.55pm)
Steve Moore	Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Dafydd Llewellyn	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Dyfed Powys
Alec Don	Prif Weithredwr Porthladd Aberdaugleddau
Sue Leonard	Prif Swyddog Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Tegryn Jones	Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Rob Quin	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
John Hogg	Pennaeth Gweithrediadau De-ddwyrain, CNC
Ian Scale	Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Steven Jones (SPJ)	Cyfarwyddwr Datblygu Cyngor Sir Penfro
Pam Kelly	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, Heddlu Dyfed Powys
Uwchar. Ian John	Heddlu Dyfed Powys
Kate Chamberlain	Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Llywodraeth Cymru
Jocelyn Llewellyn	Uwch-reolwr Cysylltiadau Allanol Canolfan Byd Gwaith
Y Cyng. H George	Yr Aelod Cabinet dros Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddiol a'r Gymraeg (gadawodd am 3.40pm)

Hefyd yn bresennol

Polly Sills-Jones	Cydgysylltydd Asesu Ffyniant Rhanbarthol (gadawodd am 3.20pm)
Claire George	Cydgysylltydd Partneriaeth a Chraffu, CSP (gadawodd am 3.20pm)
Martina Dunne	Pennaeth Cyfeiriad y Parc Cenedlaethol, APCAP (gadawodd am 3.35pm)
CI Dyfed Bolton	Uned Cyfathrebu Digidol a Seiber-drosedd, Heddlu Dyfed Powys
DS Rob Gravelle	Uned Cyfathrebu Digidol a Seiber-drosedd, Heddlu Dyfed Powys

Cymorth / Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Cymorth Partneriaeth a Chraffu (dros dro), Cyngor Sir Penfro
Lynne Richards	Cydgysylltydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu (dros dro), Cyngor Sir Penfro

Ymddiheuriadau

Cyng. Jamie Adams	Arweinydd Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd)
Andrea Winterton	Rheolwr Gweithrediadau De-O Sir Benfro, Morol a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Helen Murray	Prif Weithredwr PLANED
Christine Harley	Y Gwasanaeth Profiannaeth Cenedlaethol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sharron Lusher	Prifathrawes Coleg Sir Benfro

Dechreuodd y cyfarfod am 2.05pm.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau'r rhai a restrwyd uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 24^{ain} Mai 2016 fel cofnod cywir.

3. Cofnod Gweithredu

Pwynt 1 – Mae Christine Harley o'r Gwasanaeth Profiannaeth Cenedlaethol bellach wedi derbyn ei gwahoddiad i fod ar y BGC yn ffurfiol.

Pwynt 2 – Gwahoddwyd Sharron Lusher, Prifathrawes Coleg Sir Benfro i fynychu hefyd ac mae wedi derbyn lle ar y BGC.

Pwyntiau 3, 4, 12 a 13 – O ran logo / brand i'r BGC, nododd NE y bu raid darparu logo Sir Benfro'n unol â chynhyrchu'r arolwg Asesiad Ffyniant ac roedd y logo a ddefnyddiwyd ym mhecyn Agenda cyfarfod heddiw wedi cael ei gynnig. Pe na bai unrhyw wrthwynebiadau gan bartneriaid byddai'r logo hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer BGC Sir Benfro yn y dyfodol. Cytunodd y partneriaid i ddefnyddio'r logo ar gyfer y dyfodol gwaith BGC Sir Benfro (pwynt 13).

Atgoffodd NE y partneriaid bod pwyntiau 3 a 4 yn amodol ar fod gwefan BGC Sir Benfro ar gael ac mai'r awgrym yn y cyfarfod diwethaf oedd cysylltu â myfyrwyr o Goleg Sir Benfro i ddatblygu'r wefan. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn datrys y gofynion o ran cynnal a datblygu'r wefan yn barhaol ac, felly, NE cynigiodd bod yr awgrym yn y cyfarfod diwethaf i ddatblygu safle mewnol y gellid ei gynnal gan CSP yn cael ei ddwyn ymlaen. Cytunodd y partneriaid â'r cynnig bod gwefan newydd fewnol BGC yn cael ei datblygu. Felly, byddai LR/NE yn dechrau gwaith ar wefan BGC Sir Benfro.

LR/NE

Pwyntiau 5, 6 a 7 – Dywedodd NE ei fod wedi derbyn dogfen oddi wrth Alison Gittins, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Phartneriaeth BIPHDd, oedd yn cynnwys golwg dros y gwahaniaethau a chyffredineddau rhwng cylchoedd gorchwyl BGC Sir Benfro, Sir Gâr a Cheredigion. Dywedodd ei bod yn galonogol nodi bod Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi adleisio sefyllfa Sir Benfro o ran cydraddoldeb partneriaid wrth wneud penderfyniadau mewn cyfarfod diweddar, pan ddywedodd ei fod yn ysbryd y Ddeddf nad oedd unrhyw wahaniad o ran gwneud penderfyniadau rhwng aelodau statudol a chyfranogwyr gwadd.

Roedd yr adran benodol yn y cylch gorchwyl cysylltiedig â phenderfynu a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn:

"Nidyw penderfyniadau'r Bwrdd (er enghraifft cytuno ar asesu ffyniant lleol a'r cynllun ffyniant lleol) yn ddilys heblaw pan gânt eu gwneud ar y cyd ac yn unfrydol gan y Bwrdd pan fydd holl Aelodau Statudol yn bresennol"

Ar ôl trafodaeth fer, cytunwyd i ddileu'r gair 'unfrydol' o'r frawddeg, oherwydd y byddai hyn yn arwain at broblemau'n ddiweddarach pe na bai holl bartneriaid yn gytûn ar fater arbennig. Byddai'r cylch gorchwyl yn cael ei addasu a'i gylchredeg eto i'r partneriaid.

LR

Pwynt 8 – Roedd y Cyngor wedi trafod Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau Craffu a Throsolygu newydd ar 14^{eg} Gorffennaf. Cytunwyd i ddarparu ar gyfer dinasyddion cyfetholedig ar y Pwyllgor Craffu a Throsolygu Partneriaethau newydd.

Pwynt 9 – O ran ailsefydlu Rhwydwaith Ymgysylltu Sir Benfro, dywedodd SL ei bod wedi cyfarfod aelodau'r Rhwydwaith a Llais y Gymuned yr wythnos flaenorol. Nododd bod yr ymarferwyr ar y grŵp oedd yn adnodd pwysig ac yn rhywbeth i ystyried eu defnyddio ar gyfer gweithgaredd ymgysylltu'r dyfodol.

Pwynt 16 – Trafododd y partneriaid datblygu Rhaglen Waith BGC, fel y codwyd yn y cyfarfod ar 24^{ain} Mai, gydag amryw bartneriaid yn nodi blaenoriaethau eu sefydliadau. Cytunwyd bod y rhain yn fan cychwyn da wrth ddatblygu rhaglen waith ar gyfer y BGC, ond y dylai'r Bwrdd hefyd anelu at nodi blaenoriaeth unigryw i'r BGC fel grŵp cyfunol.

Cytunwyd y byddai'r partneriaid yn anfon eu Cynlluniau Corfforaethol i'r tîm PSS ar gyfer y cyfarfod nesaf, a byddai'r rhain yn sail i drafodaethau ychwanegol ynghylch blaenoriaethau cyfunol i'r BGC.

LR/NE i
gyd-
gysylltu

4. Diweddariad Grŵp Gwaith a Gorffen Cyllid

Nododd LR bod y cyfarwyddyd ym mhecyn yr agenda yn gofyn i'r partneriaid ystyried ble'r oedd yr arbediadau a nodi meysydd cydweithio a fyddai orau ganddynt neu awgrymu meysydd gwaith yn y dyfodol wedi cael ei gylchredeg ar 27^{ain} Mehefin; fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw ymateb.

Cytunwyd bod arbediadau cyllid a chostau'n flaenoriaeth holl bartneriaid ond derbyniwyd ei bod yn anodd cael hyd i ddarn o waith a fyddai'n dderbyniol i'r holl bartneriaid. Ystyriodd y partneriaid beth oedd y rhwystrau i ddwyn ymlaen gwaith dan faner y grŵp gorchwyl a gorffen Cyllid. Nodwyd bod rhai meysydd na fyddai partneriaid yn gallu cydweithio arnynt (e.e. pan fo partneriaethau rhannu cenedlaethol yn bodoli) a hefyd fod pwysau pan fo partneriaid yn gorfod gwasanaethu mwy nag un BGC.

Crybwyllodd y partneriaid amryw feysydd lle byddai modd cydweithredu. Yn dilyn y drafodaeth hon cytunwyd y byddai gweithdy'n cael ei gynnal ym mis Medi, yn lle cyfarfod, fel bod er mwyn datblygu rhaglen waith ar gyfer y BGC. Gan gofio'r angen i'r gweithdy hwn fod mor llwyddiannus ag y bo modd, awgrymodd IW gylchredeg syniadau dechreuol ar strwythur y diwrnod a'i hwyluso a'u cytuno o flaen llaw. Dywedodd SM y gallai cwestiynau'n canolbwyntio ar bethau y gallai partneriaid gydweithredu arnynt a thros ba ardal, yn ogystal â chwestiynau ynghylch materion cynaliadwyedd, fod yn ddefnyddiol fel man cychwyn. Cytunwyd hefyd y dylid defnyddio hyrwyddwr profiadol o'r tu mewn i sefydliadau partner ar y diwrnod.

LR/NE i
gyd-
gysylltu

5. Diweddariad Grŵp Gwaith a Gorffen Eiddo

Rhoddodd CG ddiweddariad ar drafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod diwethaf y grŵp gorchwyl a gorffen. Roedd wedi cael ei gytuno o fewn y grŵp y byddai agwedd gyffredin at godi am ofod desg yn cael ei ddatblygu gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Awgrymwyd hefyd ddatblygu cynnig i adolygu gofynion eiddo partneriaid mewn ardal benodol o'r sir fel man cychwyn. Awgrymwyd bod y cynnig yn canolbwyntio ar ardal Penfro a Doc Penfro gan fod nifer o adeiladau cyhoeddus yn hanner gwag a heb fod o safon addas ar gyfer arferion gwaith cyfoes. Gofynnodd y BGC bod Tyddewi hefyd yn

cael ei ychwanegu at y rhaglenni gwaith. Byddai diweddariad yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf.

Cefnogodd y BGC y cynnig ar gyfer ardal Penfro a Doc Penfro ac awgrymwyd hefyd bod partneriaid yn rhannu gwybodaeth am unrhyw brosiectau eiddo cydweithredol yn y dyfodol gyda'r bwrdd ehangach.

6. Diweddariad ar yr Asesiad Ffyniant

6i – Diweddariad Ymgysylltu

Rhoddodd PS-J ddiweddariad i'r partneriaid ar y cynnydd hyd yma ar ddatblygu'r arolwg a'r broses ymgysylltu. Amlinellodd hefyd y gwahanol raddau ymgysylltu a fyddai'n cael eu defnyddio, a fyddai ar ffurf 'ychwanegu at' achlysuron ymgysylltu arfaethedig gan gynnwys ymweld â meddygfeydd teulu ac archfarchnadoedd, yn ogystal â grwpiau canolbwyntio mwy trylwyr gyda grwpiau diddordebau arbennig. Byddai'r gwaith ymgysylltu'n canolbwyntio ar dri chwestiwn allweddol:

1. Sut mae Ffyniant yn edrych i chi? Pam?
2. Sut hoffech iddo edrych yn y dyfodol
3. Beth sydd angen ei newid i sicrhau Ffyniant Cymdeithasol / Economaidd / Diwylliannol / Amgylcheddol Cenedlaethau'r Dyfodol (25-50 mlynedd)

Eglurodd PS-J y byddai modd cyflwyno atebion i'r cwestiynau hyn ar fwy neu lai unrhyw ffurf, gan gynnwys drwy Trydar neu Weplyfr, neu mewn llun neu ffotograff. Byddai atebion yn cael eu gosod ar goed ffyniant a fyddai'n cael eu doddi mewn nifer o ardaloedd.

Yna amlinellodd PS-J ei waith nesaf, a fyddai canolbwyntio ar ddatblygu a phoblogi matrices Ffyniant i gyfuno:

- Ffynonellau data cenedlaethol a lleol sy'n bodoli, e.e. y Cyfrifiad
- Deddfwriaeth berthnasol, e.e. Deddf yr Amgylchedd
- Canllawiau trefnyddol, e.e. Age Cymru

Yna byddai'r Adroddiad Asesu, y byddai drafft ohono ar gael erbyn diwedd y flwyddyn, yn tynnu ynghyd y matrices Ffyniant gyda data'r arolwg ac ymgysylltu a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu.

Yna rhoddodd CG ddiweddariad cryno i'r partneriaid ynghylch mwy o'r manylion wrth wraidd y broses ymgysylltu, gan gynnwys cynhyrchu pecyn cymorth, y byddai copi ohono'n cael ei roi i'r holl uwch-swyddogion ymgysylltu o fewn sefydliadau partner ac a fyddai ar gael hefyd mewn dull electronig. Yna cyfrifoldeb y swyddogion hyn fyddai defnyddio'r pecyn cymorth wrth gasglu data ac atebion i'w hychwanegu at yr hyn a ddeuai o achlysuron eraill. Rhestrododd CG rai o'r achlysuron y byddai swyddogion yn eu mynychu yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Gofynnodd i bartneriaid anfon manylion o unrhyw grwpiau neu ddigwyddiadau iddi a fyddai'n ddefnyddiol i swyddogion ymwneud â nhw.

Mewn ymateb i bryderon ynghylch ar ba ffurf y byddai'r data ar gael, dywedodd CG y byddai data o'r arolwg Ffyniant ar gael i holl bartneriaid ar ffurf taenlen Excel. Nododd PS-J hefyd y byddai set sylfaenol o is-themâu ar gael ar gyfer sylwadau cyn ymgynghori ar yr asesiad. Roedd amryw bartneriaid yn pryderu hefyd ynghylch gallu'r tîm ymgysylltu

i gyrraedd grwpiau anodd eu cyrraedd neu'r rhai nad oedd am ymwneud â'r broses. Dywedodd PS-J bod yr amserlenni sy'n bodoli'n gyfyngol ac yn her at ei gilydd i ymgysylltu, ond y byddai'r broses yn rhoi sail i agwedd gyfredol yn y dyfodol.

Roedd partneriaid hefyd yn pryderu ynghylch yr her wrth reoli materion adnoddau cysylltiedig â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Ffyniant a gofynion rheoleiddiol a allai fod yn groes i'w gilydd. Dywedodd CB nad oedd agwedd o 'un maint i bawb' ac nad oedd unrhyw ateb cywir pan ddaeth i ganlyniadau'r asesiad Ffyniant oherwydd mai anghenion cymunedau fyddai'n bwysig.

6ii – Ardaloedd cymunedol

Dywedodd NE mai mater i BGC unigol oedd diffinio eu hardaloedd cymunedol eu hunain at ddibenion yr Asesiad Ffyniant, ac roedd canllawiau statudol yn datgan y dylid cyfyngu'r cylchoedd hyn i'r rhai lle mae gwahaniaethau arwyddocaol wrth wraidd cyflwr ffyniant ac y dylid diffinio'r ardaloedd cymunedol trwy ddefnyddio un ai Ardaloedd Cynnyrch Haen Is (ACEHI), Haen Ganol (ACEHG) neu Haen Uwch ACEHU) y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ychwanegodd, os byddai darnau o waith wrth fesur yn cael eu gwneud mewn ardaloedd neu drefi, y byddai modd cynnwys y fel atodiadau yn yr Asesiad Ffyniant fel astudiaeth o fethodoleg arbennig y bydd modd ei datblygu ymhellach gyda threigl amser. Roedd arweinwyr ymgysylltu rhanbarthol eisoes wedi dechrau gweithgaredd cynllunio trwy ddefnyddio ACEHU fel sail i ddiffinio ardaloedd cymunedol oherwydd, trwy ddefnyddio unedau ystadegol mwy, efallai y bydd modd nodi tueddiadau a chysylltiadau arwyddocaol, e.e. data iechyd y cyhoedd, na fyddai ar gael mewn ardaloedd llai. Nododd NE bod BGC Sir Gâr a Cheredigion wedi derbyn y fethodoleg hon yn ffurfiol fel yrun oedd orau ganddynt.

Roedd partneriaid hefyd yn derbyn y fethodoleg a gynigiwyd ond yn cytuno y dylai'r Bwrdd anelu at sefyllfa yn y dyfodol o allu cynrychioli cymunedau llai fel y bo'n briodol. Cefnogodd CB y cynnig i weithio yn ôl ffiniau cymunedol cydnabyddedig.

7. Adolygiad rhanddeiliaid CDLI APCAP – cyflwyniad

Amlinellodd MD ei swyddogaeth mewn cysylltiad â'r CDLI a dywedodd ei bod yn dymuno cael cyngor y BGC ar y ffordd orau o ymgysylltu â phartneriaid ynghylch adolygiad y CDLI. Yna amlinellodd y cyfnodau yn y drefn adolygu a'r cysylltiadau gyda Deddfau Ffyniant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Amgylchedd.

Dywedodd MD o ran ymgysylltu y gallai roi penodau unigol i'r partneriaid os bydd angen wrth eu gorffen. Fodd bynnag, awgrymodd y partneriaid bod MD yn rhoi cyflwyniad ar ddrafft y CDLI ym mis Ionawr 2017. Byddai NE/LR yn cadw cyswllt â MD ynghylch hyn.

LR/NE

8. Seiber-drosedd – cyflwyniad

Rhoddodd CI Dyfed Bolton a DS Rob Gravelle o Uned Cyfathrebu Digidol a Seiber-drosedd Heddlu Dyfed Powys gyflwyniad ar Seiber-drosedd.

Dechreuwyd trwy roi golwg dros yr uned, lle daethpwyd ag asedau digidol o bob rhan o'r heddlu at ei gilydd fel canolfan fedruswyd yn y pencadlys yng Nghaerfyrddin. Amlinellodd RG y rhai sydd yn y perygl mwyaf o seiber-drosedd a nododd mai diben y cyflwyniad oedd gwneud partneriaid yn fwy ymwybodol o'r mater a gofyn am gymorth i ledaenu gwybodaeth i gwsmeriaid, yn enwedig y rhai diamddiffyn. Eglurodd bod Seiber-

drosedd yn rhannu'n ddwy elfen: trosedd drwy gyfrwng y we, sef ychwanegu at droseddu 'traddodiadol' trwy ddefnyddio'r rhyngwrwyd; a throsedd gwe-ddibynnol, oedd yn seiliedig ar y we. Yna rhoddodd RG olwg dros effaith seiber-drosedd a'r prif fathau o seiber-drosedd yn ardal Dyfed Powys, fel a ganlyn:

- Sgiamiau ffôn
- E-dwylo
- Sgiamiau Loteri
- Sgiam Talk-Talk (2015)
- Sgiam Microsoft

Yna eglurodd yr hyn a wnaed i geisio ymladd yn erbyn digwyddiadau seiber-drosedd yn ardal Dyfed Powys, oedd yn cynnwys hyfforddi 48 o drinwyr galwadau i nodi'r rhai a allai fod yn agored i ymosodiad seiber-drosedd a throsglwyddo'r wybodaeth hon i seiber-ymchwilyr. Nododd y bu bron 80 hysbysiad o sgiamiau yn Sir Benfro yn ystod y ddau fis diwethaf. Roedd swyddogion nawr yn cysylltu â swyddogion y Gwasanaeth Tân sy'n ymwneud â'r Cynllun Tai Mwy Diogel i nodi'r rhai agored i seiber-drosedd, e.e. y rhai sy'n derbyn gormod o lythyrau uniongyrchol, neu sy'n agored i sgiamiau cariadon ar-lein.

Nododd PK mai seiber-drosedd oedd yn tyfu fwyaf o ran troseddoldeb a'i bod yn bwysig tynnu sylw staff sy'n gweithio gyda neu mewn cysylltiad ag unigolion diamddiffyn at y mater. Aeth DB ymlaen i ddweud y byddai DPP yn rhoi hyfforddiant ar 29^{ain} a 30^{ain} Medi yn y pencadlys i'r aelodau staff y rheng flaen hyn, a bod rhyw 15-20 lle ar ôl ar hyn o bryd. Cytunwyd y byddai partneriaid yn anfon enwau staff yn eu sefydliadau â diddordeb mewn dilyn yr hyfforddiant i LR erbyn diwedd mis Awst fel y byddai modd trosglwyddo manylion i'r uned Seiber-drosedd.

pawb /
LR

9. Diweddariad CGG – Cymunedau Sir Benfro'n teimlo'n ddiogel – Adroddiad Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

Eglurodd SPJ mai'r adroddiad a gyflwynwyd oedd adroddiad blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a rhoddodd ddiweddariadau ar ddatblygiadau gwasanaeth allweddol, deddfwriaeth berthnasol, materion sy'n codi a blaenoriaethau'r bartneriaeth yn ystod y 12 mis nesaf.

Mewn cysylltiad ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gofynnodd SL a oedd gwaith ar y gweill gyda'r rhai'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol. O ran ymddygiad gwrthgymdeithasol dywedodd SPJ bod Gwalia erbyn hyn yn cyflenwi'r gwasanaeth hwn ledled Sir Benfro a'u bod yn hwyluso gweithio gyda'r rhai sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol a dioddefwyr fel y bo'n briodol.

Diolchodd BR i SPJ am yr adroddiad rhagorol a gofynnodd bod hyn yn cael ei gyfleu'n ôl i'r bartneriaeth.

10. Diweddariad Diwygio Lles

Rhoddodd JL gyflwyniad byr i'r partneriaid, gan ddechrau gyda golwg dros flaenoriaethau, y sefyllfa bresennol o ran diweithdra, a niferoedd cyflogwyr yn y sir oedd yn fodlon gweithio gyda chyn-droseddwyr neu rieni unigol neu oedd yn barod i roi cyfleoedd profiad gwaith. O ran profiad gwaith, rhoddodd JL fanylion cryno o'r cynllun sy'n bodoli gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a oedd yn bodoli bellach ledled Sir Benfro. Erbyn hyn cafodd saith unigolyn leoliadau profiad gwaith oedd yn cynnwys cyfle

i ymgeisio am swyddi a hysbysebwyd yn fewnol. Roedd pedwar unigolyn arall i ddechrau ar y cynllun yn ystod yr wythnos nesaf ac 8 yn dechrau'r wythnos wedyn. Nododd JL hefyd bod y cynllun yn agored i'r rhai 25 oed a hŷn. Byddai prosiect profiad gwaith rhagbrofol yn dechrau'n fuan hefyd yng Nghyngor Sir Penfro.

Eglurodd JL mai diben y cyflwyniad roedd gofyn am gymorth y BGC mewn dau faes penodol:

- Fel cyflogwyr, bod aelodau'r BGC–
 - yn aros yn agored i gyfleoedd profiad gwaith
 - yn rhannu ymwybyddiaeth o fanteision cyflogi unigolion sy'n derbyn Credyd Cynhwysol
 - yn adolygu polisïau denu staff i gynorthwyo grwpiau diamddiffyn
 - yn dod yn hyderus ynghylch anabled

Argymhelliad: Cynnal achlysur neu achlysuron denu staff y BGC

- Fel partneriaid y BGC–
 - Bod yn ymwybodol o atebion cymorth digidol
 - Rhoi cymorth gyda dyled a chyllidebu
 - Tynnu sylw at gyfleoedd Prynu Dynamig
 - Grwpio gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid diamddiffyn

Argymhelliad: Bod y BGC yn cynnal achlysur ymwybyddiaeth partneriaid

Roedd y partneriaid yn barod i wrando ar yr argymhellion ond ni chytunwyd i'r naill na'r llall oherwydd ymrwymadau presennol y BGC.

11. Egwyddorion dylunio gwasanaeth gweddnewid CSP – cyfeireb o gyfarfod y Cyngor ar 14^{eg} Gorffennaf 2016

Eglurodd SPJ bod yr adroddiad a gylchredwyd i'r partneriaid wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 14^{eg} Gorffennaf gan ddarparu fframwaith i sut fyddai'r sefydliad yn newid yn y dyfodol. Roedd y ddogfen wedi cael ei chynhyrchu o flaen cefndir o ofyniad i wneud arbediadau sylweddol a byddai'r casgliad o amcanion trefnyddol yn y ddogfen yn hybu penderfynu mwy trefnus a ffyrdd newydd o weithio. Nododd SPJ bod y Cyngor wedi gofyn i'r ddogfen gael ei rhannu gyda phartneriaid, er gwybodaeth ac i dynnu sylw at bamedrau gweithredu'r awdurdod yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Dywedodd JH fod CNC yn gwneud gwaith tebyg, ond ei bod yn bwysig nodi nad oedd ymddygiad rhai cwsmeriaid, yn enwedig cwsmeriaid diamddiffyn, yn newid mor gyflym ag ailgynllunio'r gwasanaeth a bod hwn yn peryglu cyflawni arbedion. Fodd bynnag, dywedodd JL ei bod wedi sylwi ar newid diwylliannol o ran defnyddio TG, oherwydd bod 90% o hawliadau JSA yn cael eu gwneud ar-lein erbyn hyn a bod mwy a mwy o hawlwr yn defnyddio cyfleusterau TG mewn llyfrgelloedd. Dywedodd SL ei bod yn bwysig cynnwys pobl wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau ac y byddai'n hoffi gweld hyn yn cael ei adlewyrchu yn agenda gweddnewid yr awdurdod lleol. Nododd SM ei bod yn bwysig bod yn ymwybodol o effaith gwneud penderfyniadau ar asiantaethau eraill a bod hwn yn gyfrifoldeb y dylai bob partner fod yn ymwybodol ohono.

12. Gweddarlledu BGC – cyfeireb o Rybudd o Gynnig ger bron y Cyngor ar 14^{eg} Gorffennaf 2016

Eglurodd SPJ bod cais i'r partneriaid roi eu barn ar y mater uchod fel bod eu sylwadau'n gallu ysbrydoli adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi.

Cafodd y partneriaid drafodaeth fywiog ar yr effaith y gallai gweddarlledu cyfarfodydd ei chael a chytunwyd, er bod eglurder i'r cyhoedd yn bwysig, bod nifer o resymau pam nad oedd gweddarlledu'n briodol ar hyn o bryd:

- Byddai'n golygu bod cyfarfodydd yn gorfod digwydd yn Neuadd y Sir yn hytrach nag unrhyw leoliad arall CSP neu sefydliad partner;
- Roedd peth pryder y byddai gweddarlledu cyfarfodydd yn effeithio ar ansawdd a lefel trafodaeth a dadl;
- Oherwydd bod y BGC yn ei ddyddiau cynnar, cytunwyd nad oedd y bartneriaeth yn barod i gyfranogi mewn gweddarlledu oherwydd nad oedd eto wedi cytuno ar ei raglen waith na'i flaenoriaethau am y flwyddyn a ddaw.

Fel dechrau, cytunwyd y dylid gweddarlledu un cyfarfod y flwyddyn, ar yr adeg pan oedd y partneriaid yn barod i adolygu blwyddyn gyntaf eu rhaglen waith. Byddai SPJ yn cyfleu hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi.

SPJ

13. Drafft Adolygiad Blynyddol CGG

Eglurodd NE bod drafft Adolygiad Blynyddol y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer 2015-16 wedi'i orffen erbyn hyn a, os oedd gan y partneriaid unrhyw sylwadau, y dylid eu dychwelyd naill ai iddo ef neu LR erbyn diwedd mis Awst.

pawb

Croesawodd SL sylwadau'r Cynulliad leuenctid ar y cynllun ac awgrymwyd y byddai modd cynnal cyfarfod ar y cyd â'r Cynulliad leuenctid ar ryw adeg yn y dyfodol.

14. UFA

Hysbysodd NE y partneriaid y derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, a enwyd fel 'partner arall' yn y Ddeddf, oedd eisiau ymwneud â BGC Sir Benfro. Nododd y byddai PS-J a CG, fel rhan o broses ymgysylltu'r asesiad Ffyniant, yn cyfarfod â chynrychiolwyr Cyngor y Celfyddydau.

**NE/CG
igadw
cyswilt
âChyngor
y**

Atgoffwyd y partneriaid y gwnaed cytundeb iddynt ymrwymo i fynychu gweithdy i ddatblygu rhaglen waith y BGC ar ddyddiad y cyfarfod nesaf ar 21^{ain} Medi 2016. Byddai cais e-bost a gwybodaeth yn dilyn fel y trafodwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45pm.